Newyddlen Ysgolion
Hydef 2018

Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE)

SSCE Cymru cynhadledd
Cynhaliwyd yr ail cynhadledd blynyddol CMPY Cymru ar 12fed Mehefin 2018 yn Stadiwm Dinas Caerdydd.
Diolch i'r holl siaradwyr, arddangoswyr a chynrychiolwyr a fynychodd a chymryd rhan yn y gweithgareddau a gweithdai.
Yn dilyn y gynhadledd, bydd CMPY Cymru yn adolygu awgrymiadau a chanlyniadau'r gweithgareddau a pharhau i gyd-weithio efo llawer o sefydliadau i oresgyn yr heriau mae plant milwyr yn wynebu o fewn addysg.
Lawr lwythwch gopi o'r agenda, y cyflwyniad a nodiadau'r gweithgaredd adborth yma: https://www.sscecymru.co.uk/home.php?page_id=48&setLanguage=2

Cronfa Cefnogi Plant Milwyr yng Nghymru
Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £250,000 i gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru.
cyflwynwyd 41 cais ar draws Cymru ac rydym yn falch o gyhoeddi bod 27 o'r rhain wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn cyllid naill ai llawn neu rannol.
I gael y rhestr lawn o gynigion llwyddiannus, ewch i
https://www.sscecymru.co.uk/home.php?page_id=49&setLanguage=2

I gael rhagor o wybodaeth am brosiect SSCE Cymru, edrychwch ar y wefan,
www.sscecymru.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=2
a dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru

Y wybodaeth ddiweddaraf gan Rwydwaith SSCE Cymru

Cronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn
Gan ystyried y galw cynyddol ar y gronfa o'r Almaen ac er mwyn rhoi amser i awdurdodau addysg ledled y Deyrnas Gyfunol sicrhau darpariaeth hirdymor i blant aelodau o'r Lluoedd Arfog fel y bo'r angen, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn wedi cyhoeddi estyniad i'r Gronfa Cefnogi Addysg am gyfnod ychwanegol cyfyngedig o ddwy flynedd. Bydd yno £3 miliwn yn y gronfa yn 2018/19 a £2 filiwn ar gyfer 2019/20.
Bydd y drefn ymgeisio ar gyfer 2019 yn dechrau ddydd **Gwener 14 Medi 2018** a bydd yn dod i ben am 1800 nos **Wener 19 Hydref 2018**.
Mae'r Gronfa'n agored i ysgolion y'u hariennir yn gyhoeddus, Academïau ac Ysgolion Rhydd yn y Deyrnas Gyfunol y mae plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yn eu mynychu, lle mae rhieni'r plant hynny'n cael eu symud o un lle i'r llall yn gyson. Derbynnir ceisiadau gan Awdurdodau Lleol ar ran yr ysgolion hynny hefyd.
Y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yw canolbwynt proffesiynol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer yr holl faterion sydd a wnelont â phlant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r lluoedd arfog, a hwn yw'r sefydliad sy'n arwain ar weinyddu'r gronfa a'i chynnal.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/mod-support-fund-for-schools-with-service-children-grant-application-pack

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

CLILC • WLGA

Estyn
Mae teuluoedd Plant Milwyr wedi cael eu hychwanegu at y 'Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol' mis Medi 2018, o dan adran '1.2 Safonau a datblygiadau grwpiau penodol'. Bydd hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o blant milwyr o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol.

Hyfforddiant Cyfamod y Lluoedd Arfog
Mae Pecyn Hyfforddi'r Lluoedd Arfog, a ddatblygwyd gan Goleg Caerdydd a'r Fro, yn cynnwys pecyn hyfforddi wyneb yn wyneb a phecyn e-ddysgu. Mae'r pecyn hyfforddi yn addas ar gyfer aelodau etholedig awdurdod lleol, staff rheng flaen a rheolwyr adrannol, swyddogion a staff. Mae'r pecyn yn archwilio materion fel:

- beth yw Cyfamod y Lluoedd Arfog;
- beth yw Cymuned y Lluoedd Arfog;
- pa faterion all Cymuned y Lluoedd Arfog eu hwynebu; a
- beth mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud.

Bydd y pecyn hyfforddiant ar gael ar wefan CLILC cyn hir.
https://www.wlga.cymru/armed-forces-covenant-national-wales-project-

Ymarfer Cwmpasu Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru
Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl, sy'n sicrhau y caiff pobl sy'n gwasanaethu nawr ac sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, eu trin yn deg. Nod yr ymarfer cwmpasu yw creu darlun cyffredinol o ddarpariaeth ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd ledled Cymru. Helpwch Lywodraeth Cymru i gasglu'r data hwn trwy gwblhau'r arolwg a byddaf yn dosbarthu unwaith y bydd ar gael.

CEAS
Mae'r Children's Education Advisory Service (CEAS) yn rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, **Directorate Children and Young People (DCYP)**. Maent yn dîm bach sy'n brofiadol yn cynghori rhieni plant milwyr ar ystod eang o faterion yn ymwneud ag addysg plant milwyr yn y DU a thramor.
Os ydych chi erioed wedi rhyngweithio gyda'r tîm CEAS, byddent yn hoffi clywed eich adborth ar y gwasanaeth a gynigir; bydd unrhyw farn yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth yn y dyfodol.
Byddant yn ddiolchgar pe byddech chi'n cwblhau'r arolwg anhysbys hwn: Arolwg CEAS
Mae CEAS wrthi'n diweddaru eu taflenni a'u gwefan!

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
CWVYS yw'r corff cynrychioladol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, sy'n cynnwys 250,000 o bobl ifanc, 30,000 o wirfoddolwyr a 3,000 o staff cyflogedig. Mae CWVYS hefyd yn gorff aelodaeth gyda 95 o sefydliadau (ar hyn o bryd) yn gweithio ar draws Cymru. Pe bai gennych ddiddordeb mewn cael gwybod mwy, cysylltwch helen@cwvys.org.uk a/neu edrychwch ar y wefan: www.cwvys.org.uk
GwirVol
Partneriaeth o sefydliadau yng Nghymru sy'n cynrychioli a hyrwyddo gwirfoddoli gan ieuenctid drwy bob un o'i brosiectau.
I gael rhagor o wybodaeth, ewch i http://www.gwirvol.org/en/organisations/
Eurodesk UK
Mae CWVYS yn un o'r partneriaid Eurodesk sy'n ceisio cefnogi darparu a hyrwyddo gwasanaethau Eurodesk yn y DU. Maent wedi'u hyfforddi i ddarparu gwybodaeth Ewropeaidd i bobl ifanc a'r bobl sy'n gweithio gyda hwy ar lefel leol/rhanbarthol/cenedlaethol gan ddefnyddio adnoddau gwybodaeth Eurodesk. Mae'r partneriaid yn gweithio ar draws y DU i sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o bobl ifanc yn cael gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Fel rhan o'r rhwydwaith, mae gan CWVYS fynediad i gronfa ddata o sefydliadau ieuenctid ar draws Ewrop, felly os oes gennych syniadau am brosiectau a'ch bod yn chwilio am bobl i weithio gyda hwy, gall CWVYS ganfod y partner rhyngwladol cywir i chi. Cyswllt helen@cwvys.org.uk

Prifysgol y Plant

Drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, mae elusen Prifysgol y Plant yn anelu at ddatblygu cariad at ddysgu ymysg plant. Maent yn gwneud hyn drwy annog a dathlu cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol o fewn a'r tu allan i'r ysgol. Mae effaith y gweithgareddau hyn wedi profi i fod yn gadarnhaol, a dyna pam y maent wedi ymrwymo i sicrhau tegwch mewn perthynas â chyfleoedd a darparu mynediad i blant o bob cefndir. I gael gwybod mwy; gweler: www.childrensuniversity.co.uk

Gwasanaeth Lles y Fyddin – Seibiant Antur

Cafodd Tîm Gwasanaeth Lles y Fyddin Cymru ddechrau gwych i wyliau'r haf, gan fynd â grŵp o fwy na chant o blant o deuluoedd y Lluoedd (dros gyfnod o bythefnos) ar seibiant antur preswyl pum diwrnod i Ganolfan Addysg Awyr Agored Plas Pencelli yn Aberhonddu.

Cafodd plant o bob cwr o Gymru brofi amrywiaeth o weithgareddau: Dringo clogwyni Gŵyr, beicio a threcio drwy'r Bannau, caiacio i lawr afon Gwy a mwynhau treulio amser yn dod i adnabod ei gilydd yn lleoliad hardd y Ganolfan.

Ar brydiau roedd y gweithgareddau yn heriol; roedd cerdded i fyny Pen y Fan gyda bag ar eu cefn yn llawn cinio a fflasg o siocled poeth yn siŵr o gyflymu'r galon! Gall pob un o'r bobl ifanc a gymerodd ran fod yn hynod falch o'u hunain am eu cyflawniadau drwy gydol yr wythnos. Hoffai AWS ddiolch i staff y ganolfan, a gallwn eu hargymell yn fawr, a'r Lleng Brydeinig Frenhinol am ariannu'r profiad hwn.

Ysgol Gynradd Prendergast – Diwrnod y Lluoedd Arfog

I ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog 2018, cynhaliodd Prendergast wasanaeth arbennig a fynychwyd gan yr ysgol gyfan. Bu'r plant o *Military Kids Club Heroes* yn gwerthu bandiau arddwrn hefyd a bathodynnau, gan godi mwy na £300. Yn y llun isod mae'n plant MKC yn cyfri'r arian a godwyd.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

CLILC • WLGA

Digwyddiadau sydd i ddod

Cynhadledd flynyddol SCiP Alliance
Victory Services Club, Marble Arch, Llundain
Dydd Llun 8 Hydref 9:30am-4:30pm
https://www.scipalliance.org/events/scip-alliance-annual-conference

Llanilltud Fawr – Heddiw a ddoe
Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr
Dydd Mawrth 13 Tachwedd 10.30am
Bydd y digwyddiad yn cynnwys gwasanaeth Coffa byr gyda lluniaeth i ddilyn. Mae hefyd yn gyfle i'n disgyblion, cyn-filwyr a phersonél presennol ddod at ei gilydd i rannu profiadau.
Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r digwyddiad, cysylltwch â'r ysgol ar:
llantwitmajorhs@valeofglamorgan.gov.uk

Adnoddau

Y Lleng Brydeinig Frenhinol - 'Diolch'
Eleni, mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn gofyn i'r wlad ddweud 'Diolch' i genhedlaeth y Rhyfel Byd Cyntaf – i Bawb a wasanaethodd, a aberthodd ac a newidiodd ein byd. Y rhai a fu farw ar faes y gad; y rhai a ddychwelsant adref; y rhai a wasanaethasant ar y ffrynt gartref, yn y ffermydd a'r ffatrïoedd; y rhai a adeiladasant fyd newydd - ein byd.
Mae rhai pecynnau gweithgareddau wedi'u hychwanegu at y wefan yn ddiweddar:
Celf
https://media.britishlegion.org.uk/Media/13591/art-activity-pack.pdf?_ga=2.182154663.1433178113.1534170413-1084699118.1534170413=
Cerddoriaeth
https://media.britishlegion.org.uk/Media/13592/music-activity-pack.pdf?_ga=2.182154663.1433178113.1534170413-1084699118.1534170413
Barddoniaeth
https://media.britishlegion.org.uk/Media/13593/poetry-activity-pack.pdf?_ga=2.182154663.1433178113.1534170413-1084699118.1534170413

Llyfr 'Sometimes: My Daddy's Gone Away with Work'
Mae'r llyfrau hyn, a ysgrifennwyd gan Clare Shaw, yn bersonol iawn i'r plentyn oherwydd bod ynddynt lefydd i ysgrifennu a thynnu lluniau o'u teimladau. Yn odlau i gyd, gyda chliwiau a chyngor gan seicolegydd addysg yn frith drwy'r ysgrifen, mae'r llyfr yn hynod o unigryw. Ymwelwch â www.cskidsbooks.com i ddarganfod mwy. Mae Clare yn cynnig gostyngiad pris ar y llyfrau i ysgolion a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â helpu teuluoedd y gwasanaethau, cysylltwch â ni ar y wefan am wybodaeth bellach.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

CLILC • WLGA

Ffederasiwn Teuluoedd Morol – Cylch Emosiynol Adleoli i Blant
Gall adleoli fod yn brofiad emosiynol. Gall deall y camau a'r teimladau sydd ynghlwm helpu. Crëwyd yr adnodd hwn i rieni, gofalwyr ac ysgolion.
https://nff.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/Homeport-pull-out-Making-Sense-of-the-Emotional-Cycle-of-Deployment.pdf

Reading Force
Mae Reading Force yn elusen ddarllen ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth sy'n rhoi llyfrau am ddim a llyfrau lloffion i bob plentyn, i annog teuluoedd Lluoedd Arfog (milwyr presennol, cyn-filwyr a milwyr wrth gefn) i rannu llyfrau, sgwrsio amdanynt a llenwi llyfr lloffion.
Mae ar gael i holl deuluoedd y Lluoedd Arfog beth bynnag yw eu hamgylchiadau, p'un a ydynt gartref neu i ffwrdd. Mae'n arbennig o ddefnyddiol pan fo rhiant wedi'u gwahanu oddi wrth eu plant o ganlyniad i newid lleoliad neu hyfforddiant fel ffordd i aros yn agos.
Mae adnoddau Reading Force yn rhad ac am ddim a gellir eu rhoi i deuluoedd gan ysgolion, lleoliadau lles a grwpiau cymunedol fel rhan o'u cefnogaeth fugeiliol.
Mae'r wefan Reading Force newydd bellach yn fyw a gall ysgolion a lleoliadau gofrestru am ddim i dderbyn llyfrau lloffion i deuluoedd a phlant: www.readingforce.org.uk

Astudiaeth Achos Ysgol

Rydyn ni wastad yn chwilio am enghreifftiau o'r modd mae ysgolion yn gweithio gyda phlant milwyr. Os ydych chi'n gweithio gyda phlant o'r fath, byddai'n dda gyda ni glywed gennych chi, ni waeth a ydych chi'n helpu un plentyn neu lawer o blant.
I roi gwybod inni am eich gwaith a sut mae disgyblion neu gymuned yr ysgol wedi elwa arno, cysylltwch â'r prosiect yn uniongyrchol neu lenwi templed yr astudiaethau achos a'i anfon trwy ebost at: millie.taylor@wlga.gov.uk

Dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru

Bydd Llythyr Newyddion ysgolion nesaf SSCE Cymru yn cael ei ddosbarthu yn yr Rhagfyr. Os hoffech gyfrannu i'r rhifyn nesaf, dylech anfon eich cynnwys at millie.taylor@wlga.gov.uk erbyn 4 Rhagfyr.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

CLILC • WLGA